Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Llywelyn

**Ffordd Trellewelyn**
**Y Rhyl**
**Sir Ddinbych**
**LL18 4EU**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Llywelyn

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Llywelyn |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ddinbych |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 706 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 530 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 89 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn [SECTOR] yw [xx]%) | 28.4% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn [SECTOR] yw [xx]%) | 19.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 2.3% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2021 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 04/12/2012 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 06/06/2022 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Llywelyn yn darparu lefel uchel o gymorth, gofal ac arweiniad ar gyfer ei disgyblion a'i staff. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn hapus yn yr ysgol ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol, ac yn awyddus iawn i sgwrsio am eu gwaith a bywyd ysgol. Mae'r pennaeth a'r tîm arweinyddiaeth yn creu ac yn cynnal diwylliant cryf o weithio mewn tîm, ac o ganlyniad, mae pob aelod o staff yn manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu syniadau newydd, fel arbrofi ag ymagweddau at gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Mae gan arweinwyr weledigaeth drosfwaol gref ar gyfer yr ysgol wedi'i seilio ar y datganiad cenhadaeth, 'credu, cyflawni a disgleirio'. Maent yn defnyddio ystod eang o weithgareddau i werthuso gwaith yr ysgol, yn aml yn nodi blaenoriaethau'n briodol, er nad yw cynlluniau i fynd i'r afael â phrif feysydd yr ysgol i'w datblygu bob amser yn ddigon clir i gyflawni cynnydd cyflym, ffocysedig a chyson.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Ar y cyfan, maent yn datblygu eu medrau llythrennedd cynnar yn dda ac yn manteisio ar gyfleoedd addas i ysgrifennu at wahanol ddibenion ar draws y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau rhifedd yn briodol, ac yn y cyfnod sylfaen, maent yn cymhwyso'r medrau hyn yn effeithiol mewn gwahanol gyd-destunau. Mae llawer ohonynt yn datblygu medrau Cymraeg yn briodol ac mae ganddynt agwedd gadarnhaol tuag at siarad Cymraeg. At ei gilydd, nid yw medrau digidol disgyblion wedi'u datblygu'n ddigonol, er gwaethaf buddsoddiad diweddar mewn offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Mae llawer ohonynt yn datblygu medrau creadigol a chorfforol yn dda. Maent yn elwa ar adnoddau awyr agored fel llwybr beicio ac ardaloedd ysgol goedwig a gardd hynod ddifyr sy'n nodwedd eithriadol o dda yn narpariaeth yr ysgol.

Mae athrawon a'u cynorthwywyr yn darparu gweithgareddau sy'n ymgysylltu â disgyblion yn dda. Yn ddiweddar, maent wedi cyflwyno 'diwrnodau ysbrydoli' i gyflwyno testunau newydd sy'n dal dychymyg disgyblion yn dda. Er enghraifft, cafodd disgyblion iau ymweliad gan greadur yn y goedwig a adawodd olion troed. Fe wnaethant ddilyn ei drywydd yn ôl i ardd yr ysgol a helpu adeiladu gwâl ar ei gyfer. Mae athrawon ar draws yr ysgol yn dechrau datblygu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu medrau annibynnol mewn gwahanol gyd-destunau, er enghraifft wrth gael mynediad at wahanol ardaloedd o'r dosbarth ac ardaloedd awyr agored yn y cyfnod sylfaen, neu wrth ymateb i 'ddiwrnodau ymholi'. Fodd bynnag, megis dechrau y mae rhywfaint o'r gwaith hwn.

Mae athrawon yn olrhain cynnydd disgyblion yn gywir wrth iddynt symud trwy'r ysgol, ac mae'r ysgol yn trefnu cymorth ychwanegol addas ar gyfer disgyblion yn ôl yr angen, gan gynnwys amrywiaeth o ymyriadau sy'n cefnogi eu datblygiad addysgol a chymdeithasol. Ar y cyfan, mae athrawon yn darparu adborth addas ar gyfer disgyblion, er nad ydynt bob amser yn darparu cyfleoedd digon mynych i ddisgyblion wella neu ddatblygu eu gwaith yn sgil yr adborth a roddwyd iddynt.

## Argymhellion

A1 Gwella effaith y cynllunio strategol ar ddeilliannau disgyblion

A2 Gwella cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau digidol

A3 Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau dysgu annibynnol disgyblion

A4 Rhoi cyfleoedd mwy rheolaidd i ddisgyblion wella'u gwaith yn sgil adborth

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith yn ymwneud â dysgu yn yr awyr agored, i'w lledaenu ar wefan Estyn. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Yn ystod eu cyfnod yn Ysgol Llywelyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol.

At ei gilydd, mae disgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd yn dda. Mae disgyblion iau yn mwynhau edrych ar lyfrau yn annibynnol, er enghraifft darllen stori 'Frog and the Princess' ar goedd yn yr ardal ddarllen yn yr awyr agored er pleser, ac actio'r rhannau gyda ffrind. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf trwy'r cynllun ffoneg ac yn defnyddio'r medrau hyn yn dda i ddarllen amrywiaeth o eiriau a brawddegau syml. Wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol, maent yn darllen gwaith a thestunau â chywirdeb a rhugl der ac yn ennill dealltwriaeth dda o ystod o eirfa gynyddol gymhleth. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ddarllenwyr hyderus erbyn iddynt adael yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau ysgrifennu. Mae'r disgyblion ieuengaf yn manteisio ar ystod addas o gyfleoedd trwy eu chwarae i ddatblygu eu medrau creu marciau ar draws ardaloedd y ddarpariaeth. Er enghraifft, maent yn peintio â dŵr lliw yn yr ardal awyr agored ac yn ysgrifennu cardiau ar gyfer eu ffrindiau. Mae disgyblion hŷn yn cymhwyso eu medrau ysgrifennu yn briodol trwy eu gwaith testun. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu adroddiadau papur newydd ar gyfer y Rhyl Times, a cherddi am y cynhaeaf. Mae bron pob un o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn cyflwyno eu gwaith i safon uchel gydag arddull llawysgrifen ddestlus.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn siarad am eu gwaith a phethau sydd o ddiddordeb iddyn nhw gyda brwdfrydedd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn arddangos medrau gwrando da ac yn mwynhau ymuno â thrafodaethau. Fodd bynnag, nid yw ychydig iawn o ddisgyblion yn y grwpiau oedran hŷn bob amser yn gwrando'n ddigon astud ar athrawon nac ar safbwyntiau a barn disgyblion eraill. Mae disgyblion sy'n elwa ar gymorth ychwanegol trwy'r ddarpariaeth arbenigol yn yr ysgol yn gwneud cynnydd cryf, yn enwedig yn eu medrau iaith a llythrennedd.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau Cymraeg addas yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae disgyblion iau yn mwynhau ymuno a chanu caneuon a rhigymau Cymraeg. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen ac yn ymateb i amrywiaeth o gwestiynau syml wrth ddefnyddio cardiau 'helpwr heddiw' yn ystod amser cofrestru yn y bore. Wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol, mae llawer ohonynt yn ymateb yn addas i gwestiynau am ble maen nhw'n byw, eu teulu, a'u hoffterau a chasbethau, gan ddefnyddio cardiau i'w cynorthwyo pan fydd angen.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas yn datblygu eu medrau rhifedd. Mae llawer o ddisgyblion iau yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn effeithiol i wahanol gyd-destunau. Er enghraifft, maent yn defnyddio eu gwybodaeth am bwyntiau'r cwmpawd i lywio grid syml a didoli gwahanol fathau o ddeinosoriaid gan ddefnyddio diagram Venn. Ar y cyfan, wrth iddynt symud trwy'r ysgol, caiff disgyblion lai o gyfleoedd i gymhwyso medrau rhifedd i wahanol gyd-destunau dilys,

ac o ganlyniad, nid ydynt yn cymhwyso eu medrau'n gyson mewn gwaith ym meysydd eraill y cwricwlwm.

Megis dechrau datblygu y mae medrau digidol disgyblion ar draws yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio codau QR yn llwyddiannus i fynd at storïau, ac mae lleiafrif ohonynt yn dechrau defnyddio meddalwedd syml i beintio a thrin data yn eithaf hyderus. Pan roddir cyfle iddynt, mae mwyafrif o ddisgyblion hŷn yn cyfleu gwybodaeth yn dda trwy gyflwyniad digidol. Er enghraifft, maent yn cyflwyno eu syniadau am sut gallant gael effaith gadarnhaol ar faterion amgylcheddol yn eu hysgol a'u hamgylchedd lleol. Mae disgyblion yn defnyddio peiriannau chwilio i ddod o hyd i ffeithiau perthnasol a mewnforio graffiau syml y maent wedi'u creu. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid yw medrau digidol disgyblion wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn dda trwy amrywiaeth o weithgareddau ar draws eu gwaith testun. Maent yn cyflwyno eu darluniau, paentiadau a mathau eraill o gyfryngau i safon dda, er enghraifft wrth ail-greu gwaith celf gan Edvard Munch. Mae llawer o ddisgyblion iau yn mwynhau ymgymryd â rolau yn eu chwarae gan ddefnyddio amrywiaeth o hetiau a gwisgoedd yn yr ardal chwarae rôl. Mae ychydig o ddisgyblion yn defnyddio eu dychymyg yn dda i gyfansoddi cerddoriaeth a chaneuon yn yr ardal gerddoriaeth yn yr awyr agored gan ddefnyddio offerynnau fel drymiau ac ysgydwyr. Mae disgyblion hŷn yn adnabod ac yn siarad am gerddoriaeth mewn termau bras, gan ddefnyddio iaith gerddorol briodol fel tempo, dynameg, rhythm a thraw. Er enghraifft, maent yn gwrando ar ddarn o gerddoriaeth La Mer gan Debussy ac yn ei arfarnu'n fedrus.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn dda ar draws yr ysgol. Mae disgyblion iau yn defnyddio amrywiaeth o offer yn eu chwarae yn llwyddiannus, er enghraifft wrth chwarae â thoes chwarae neu wneud cacennau mwd yn yr ardal awyr agored. Mae llawer ohonynt yn datblygu medrau corfforol yn dda wrth ddringo ar y llwybr cadw'n heini yn yr ardal awyr agored, neu'n defnyddio blociau mawr i adeiladu wal, neu wrth gicio pêl-droed a rhedeg ar ei hôl gyda'u ffrindiau. Mae llawer ohonynt yn datblygu medrau echddygol manwl yn dda, er enghraifft wrth ddefnyddio brwshis bach i lanhau 'anifeiliaid y môr' yn ardal y dŵr mwdlyd cyn eu trosglwyddo'n ôl i ddŵr glân. Caiff pob un o'r disgyblion gyfle i ddysgu sut i reidio beic erbyn iddynt adael yr ysgol, gan ddefnyddio llwybr beicio a chyflenwad o feiciau'r ysgol ei hun. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn reidio beiciau yn annibynnol. Mae disgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn effeithiol yng nghoetir ac ardaloedd gerddi'r ysgol. Er enghraifft, maent yn defnyddio offer i greu adnoddau o bren i blant eraill eu defnyddio fel gemau bwrdd 'tic tac toe' a chownteri.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus y bydd oedolion yn gwrando ar eu pryderon ac yn eu cynorthwyo i ddatrys unrhyw broblemau. Maent yn ymddwyn yn dda mewn dosbarthiadau, yn yr awyr agored, a phan fyddant yn symud o gwmpas yr ysgol. Mae cynllun gwobrwyo ymgorfforedig yr ysgol, "tocyn", yn annog y rhan fwyaf o ddisgyblion i ymddwyn yn briodol, ac ymdrechu'n galed mewn gwahanol feysydd o fywyd ysgol, fel siarad Cymraeg.

Mae gan bron bob un o'r disgyblion agwedd gadarnhaol at eu dysgu. Mewn gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn talu sylw i'w hathrawon ac yn awyddus i wneud yn dda. Mae ganddynt ddiddordeb yn y testunau maent yn dysgu amdanynt, yn ymgymryd â'r tasgau a ddarperir ar eu cyfer â brwdfrydedd, ac yn gweithio ar dasgau am gyfnodau cynaledig yn briodol. O roi'r cyfle iddynt, mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau dysgu'n annibynnol trwy dasgau neu brosiectau heriol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd o'r fath yn anghyson, ac o ganlyniad, mae ychydig o ddisgyblion yn ei chael yn anodd dyfalbarhau neu'n chwilio am atebion newydd pan fyddant yn wynebu anawsterau. Mae llawer o ddisgyblion yn gwerthfawrogi'r adborth a gânt gan oedolion ac yn dechrau ymateb yn briodol pan roddir cyfleoedd iddynt wneud hynny. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn parchu cyfraniadau disgyblion eraill yn ystod gwersi, ond mae ychydig iawn ohonynt yn ei chael yn anodd canolbwyntio pan fydd eu hathro neu ffrindiau yn siarad, neu pan na fyddant yn ymgymryd â rolau digon gweithredol yn ystod gwersi. Mewn ychydig o'r achosion hyn, mae disgyblion yn gwneud defnydd effeithiol o strategaethau ac ymyriadau penodol i'w cynorthwyo i hunanreoleiddio eu hemosiynau, er enghraifft trwy ofyn am amser myfyrio yn ardal 'cwtch' neu drwy fynychu sesiynau penodol sy'n eu helpu i fynegi emosiynau.

Mae bron pob un o'r plant yn cymryd rhan mewn cyfleoedd chwarae pwrpasol amser egwyl, ac yn dangos pryder priodol am ddisgyblion eraill. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 4 yn dewis chwarae gemau parasiwt sy'n annog cydweithrediad a gwaith tîm effeithiol. Mae disgyblion yn gweithredu system gyfeillion yn llwyddiannus trwy adnodd wedi'i gynllunio'n ofalus sy'n cefnogi ethos gwrthfwlio clir yr ysgol. Maent yn ymfalchïo wrth wisgo eu siacedi llachar yn y rôl hon, ac yn helpu staff a disgyblion eraill trwy gydol y dydd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwybod beth i'w wneud os oes bwlio neu ymddygiad amhriodol yn digwydd, a sut gallant helpu. Mae posteri o gwmpas yr ysgol a gwersi penodol yn helpu sicrhau bod disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o e-ddiogelwch a sut i gadw'n ddiogel ar-lein.

Mae disgyblion yn manteisio ar lawer o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau corfforol, trwy wersi addysg gorfforol wedi'u hamserlennu a gweithgareddau dysgu yn yr awyr agored, gan gynnwys yn ystod teithiau preswyl ar gyfer disgyblion hŷn. Pan roddir cyfle iddynt, mae llawer o ddisgyblion yn elwa ar ddefnyddio ystod o offer chwarae ac ymarfer corff, sy'n eu helpu i gadw'n heini a mwynhau bod yn egnïol.

Mae pob un o'r disgyblion yn elwa ar gael mynediad wythnosol wedi'i amserlennu at ddarpariaeth coedwig awyr agored yr ysgol. O ganlyniad i'r amrywiaeth o weithgareddau ysgogol, maent yn datblygu hyder a gwydnwch, yn dyfalbarhau â thasgau a heriau, fel llifio pren i greu adnoddau neu'n gweithio gyda'i gilydd i adeiladu cuddfannau. Trwy gymryd cyfrifoldeb am ardaloedd y goedwig a'r ardd a helpu cynnal adnoddau awyr agored eraill, mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu synnwyr o barch am eu hamgylchedd lleol ac am faterion yn ymwneud â chynaliadwyedd. Mae hyn yn un o gryfderau sylweddol yr ysgol ac fe gaiff effaith nodedig ar ymddygiad yr ychydig iawn o ddisgyblion sy'n ei chael yn anodd rheoli pethau sy'n tynnu eu sylw pan fyddant yn dysgu dan do.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd bwyta'n iach a gwneud ymarfer corff. Mae mwyafrif y disgyblion yn dewis byrbrydau ffrwythau iach amser egwyl. Mae gan y Llysgenhadon Chwaraeon Efydd rôl weithredol mewn hyrwyddo bwyta'n iach, ac mae hyn wedi cryfhau cysylltiadau rhwng y cartref a'r ysgol. Er enghraifft, maent yn hyrwyddo llysieuyn bob wythnos ar

draws yr ysgol i annog teuluoedd i goginio gartref, ac yn rhannu'r pryd bwyd maent wedi'i greu trwy blatfform cyfathrebu ar-lein yr ysgol.

Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn ymgymryd â rolau cyfrifoldeb yn bwrpasol. Er enghraifft, mae aelodau o senedd yr ysgol, sef 'Y Senedd', yn ymgymryd â'u rolau yn bwrpasol a gyda synnwyr cryf o gyfrifoldeb. Caiff disgyblion eu cynnwys mewn llawer o agweddau ar wneud penderfyniadau yn yr ysgol. Er enghraifft, mae'r Senedd Iechyd a Lles yn penderfynu ar y thema ar gyfer y diwrnodau iechyd a lles bob tymor, fel cynnal 'diwrnod beic a siocled poeth' i godi proffil seiclo. Caiff diwrnodau o'r fath effaith gadarnhaol ar les disgyblion a lles pobl eraill, trwy godi arian ar gyfer elusennau. Mae hyn wedi galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu graddau cryf o empathi tuag at bobl eraill.

Yn sgil pandemig y coronafeirws, ni fydd arolygwyr yn adrodd am gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod blwyddyn academaidd 2021-2022. Fodd bynnag, bydd arolygwyr yn ystyried darpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o faes arolygu 4 (gofal, cymorth ac arweiniad).

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae athrawon ar draws yr ysgol yn darparu ystod o gyfleoedd dysgu ar gyfer disgyblion ac fe'u cynorthwyir yn dda gan gynorthwywyr addysgu. Ar ddechrau gwersi, maent yn rhoi esboniadau clir i ddisgyblion ac yn defnyddio holi'n ofalus i'w cynorthwyo i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Maent yn paratoi gweithgareddau sy'n darparu gwahanol lefelau her ar gyfer disgyblion, wedi'u seilio ar raddfa dreigiau lliw'r ysgol. Maent yn ymgynghori â disgyblion ar yr hyn yr hoffent ei ddysgu ac yn ymgorffori'r syniadau hyn mewn cynllunio testunau. Mae athrawon yn cynllunio ac yn cyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys sy'n rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am amrywiaeth o destunau. Wrth gynllunio'r testunau hyn, mae athrawon yn hynod fedrus yn creu cysylltiadau rhwng y gwahanol feysydd dysgu fel bod disgyblion yn cael ystod eang o brofiadau, er nad ydynt bob amser yn cynllunio'n ddigon gofalus ar gyfer datblygu medrau.

Maent yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o dreftadaeth leol a Chymreig, er enghraifft wrth ddysgu am Gastell Rhuddlan, adrodd stori Dewi Sant a thynnu braslun o Ynys Llanddwyn. Mae staff yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg, er enghraifft trwy ddarparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ymarfer geirfa allweddol ac ymadroddion cystrawennol. Caiff disgyblion gyfleoedd priodol i ddysgu am ddiwylliannau eraill, er enghraifft wrth iddynt ddysgu am wyliau Diwali a Holi. Mae staff a llywodraethwyr yn datblygu gweledigaeth yr ysgol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru yn briodol. Mae profiadau dysgu ymarferol wythnosol yn ardaloedd y goedwig a'r ardd yn hynod effeithiol ac yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion a'u hymgysylltiad â'u dysgu. Er enghraifft, mae staff yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio amrywiaeth o offer i greu llinellau rhif a gemau didoli syml sy'n hyrwyddo cyfathrebu ar lafar, ac mae disgyblion yn elwa ar ddysgu am gadw gwenyn wrth iddynt helpu gofalu am y cychod gwenyn.

Mewn lleiafrif o achosion, mae staff yn tueddu i roi gormod o gyfarwyddyd i ddisgyblion wrth iddynt ymateb i dasgau, ac nid ydynt yn darparu digon o gyfleoedd i ddatblygu medrau dysgu'n annibynnol. Er enghraifft, yn y cyfnod sylfaen, nid yw athrawon yn cynllunio gweithgareddau'n gyson yn ardaloedd yr ystafell ddosbarth a'r

awyr agored sy'n darparu lefel addas o her ar gyfer disgyblion wrth weithio'n annibynnol. Ar draws yr ysgol, mae'n ddyddiau cynnar o ran y fenter ddiweddar i wella annibyniaeth trwy gyflwyno diwrnodau ysbrydoli ac ymholi, ac mae'r effaith yn anghyson. Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon yn creu ymdeimlad o frwdfrydedd am destun newydd yn fedrus, er enghraifft trwy wisgo i fyny fel tywysydd teithiau a defnyddio technoleg i fynd â disgyblion ar daith ddychmygol o gwmpas Llundain, neu drwy gyrraedd y dosbarth wedi gwisgo'n barod ar gyfer gwyliau gyda'u cês dillad. Pan fydd yr addysgu ar ei gryfaf, maent yn datblygu'r thema dros gyfnod, gan gynllunio gweithgareddau heriol y gall disgyblion weithio arnynt yn annibynnol, er enghraifft cynllunio gwyliau trwy ystyried meini prawf amrywiol, gan gynnwys cyllideb.

Mae staff yn olrhain cynnydd disgyblion wrth iddynt symud trwy'r ysgol yn gadarn. Gwnânt ddefnydd medrus o asesiadau amrywiol er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon yn rhoi adborth llafar gwerthfawr i ddisgyblion sy'n eu helpu i ymestyn eu dysgu ac yn rhoi adborth ysgrifenedig addas pan fydd yn briodol. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, mae sylwadau'n llai defnyddiol o ran cynorthwyo disgyblion i symud at y cam nesaf yn eu dysgu, ac nid yw disgyblion bob amser yn cael digon o gyfleoedd i fireinio a gwella eu gwaith yn sgil yr adborth. Mae athrawon yn rhoi gwybodaeth werthfawr i rieni am sut mae eu plentyn yn dod yn ei flaen yn yr ysgol yn eu hadroddiadau diwedd blwyddyn, sy'n cynnwys crynodeb 'cipolwg' yn ogystal â mwy o wybodaeth am bob maes dysgu.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned gefnogol a gofalgar sydd ag ymagwedd gynhwysol glir at addysg. Mae staff yr ysgol yn hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da, cwrteisi a pharch yn llwyddiannus. Mae rhaglen wrthfwlio a gyflwynwyd yn ddiweddar yn cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth disgyblion o sut mae eu hymddygiad yn effeithio ar bobl eraill. Mae staff yn annog disgyblion i ymgysylltu â'r celfyddydau creadigol ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu empathi a thosturi. Er enghraifft, yn ystod pandemig COVID-19, perfformiodd côr yr ysgol ar-lein ar gyfer preswylwyr cartref gofal lleol, ac anfonodd y disgyblion lythyrau atynt.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar waith i hyrwyddo byw yn iach a lles disgyblion. Mae'r cyfleoedd a ddarperir gan staff i ddisgyblion ddatblygu medrau bywyd a synnwyr o les yn ardaloedd awyr agored y goedwig a'r ardd yn un o brif lwyddiannau'r ysgol. Mae'r ysgol yn cynnig llawer o gyfleoedd i ddisgyblion fod yn gorfforol egnïol mewn amrywiaeth eang o weithgareddau chwaraeon allgyrsiol, yn ogystal â thrwy gymryd rhan mewn digwyddiadau ysgol gyfan i godi arian ar gyfer elusennau, er enghraifft yn ystod digwyddiad rhedeg yn ddiweddar.

Mae sesiynau addoli ar y cyd yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn effeithiol. Mae disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth a gwerthfawrogiad cadarn o'u treftadaeth a'u diwylliant, gyda chyfleoedd addas i ddathlu traddodiadau Cymreig a dysgu am yr ardal leol. Mae staff yn annog disgyblion i ystyried barn pobl eraill yn sensitif a chydnabod a pharchu cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a phwysigrwydd gwerthoedd fel goddefgarwch. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 2 yn dangos agweddau gofalgar pan fyddant yn gofalu am gi tywys tegan, yn dysgu am sut cânt eu defnyddio i gynorthwyo

unigolion â nam ar y golwg. Mae disgyblion hŷn yn elwa ar gyfleoedd i gyfrannu at wasanaethau, er enghraifft wrth nodi Mis Hanes Pobl Dduon trwy berfformio eu haraith 'I have a Dream' eu hunain i hyrwyddo cydraddoldeb ar sail geiriau eiconig Martin Luther King.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn gryfder yn yr ysgol. Caiff disgyblion ymyriadau pwrpasol ac ystyriol mewn ystafelloedd dosbarth ac yn ystafelloedd darpariaeth fewnol yr ysgol, o'r enw 'Access' ac 'Y Cwtch'. Mae staff yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i nodi a mynd i'r afael ag anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn gynnar. Maent yn cynllunio ymyriadau effeithiol i gefnogi anghenion disgyblion fel rhan o wersi a thrwy grwpiau tynnu allan o wersi. Mae staff yn defnyddio ymchwil wedi'i chynnal gan fyfyrwyr o brifysgol leol ac a gomisiynwyd gan yr ysgolion clwstwr i roi tystiolaeth ar effaith eu hymyriadau, a myfyrio arnynt. Mae amrywiaeth eang o strategaethau anogaeth yn cefnogi lles emosiynol disgyblion yn effeithiol iawn.

Mae staff yn paratoi cynlluniau addysg unigol manwl ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac yn gosod targedau priodol. Maent yn defnyddio proffiliau disgyblion un dudalen yn effeithiol i amlinellu sut orau i gynorthwyo plant. Mae'r ysgol yn paratoi'n dda iawn ar gyfer trosglwyddo i drefniadau newydd cenedlaethol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r ysgol yn ymgysylltu'n agos ac yn bwrpasol ag asiantaethau allanol, gan gynnwys y tîm Cysylltiadau Teuluol sydd wedi'i leoli ar safle'r ysgol. Mae staff yn mynd ati'n ddiwyd i nodi disgyblion a allai elwa ar gymorth ychwanegol, fel gofalwyr ifanc, ac yn cymryd camau buddiol i'w cynorthwyo. Caiff arweinwyr eu cynorthwyo gan swyddog presenoldeb yr ysgol i fonitro presenoldeb disgyblion yn ofalus, gan fynd i'r afael â phroblemau presenoldeb gwael a chynorthwyo disgyblion a theuluoedd yn gadarnhaol.

Caiff disgyblion ystod gynyddol o gyfleoedd i ddatblygu medrau arwain trwy grwpiau llais y disgybl. Mae aelodau'r grwpiau hyn yn cyfrannu'n effeithiol at welliannau ysgol gyfan, fel system docynnau gwobr weledol a ddatblygwyd gan y cyngor ysgol. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ymdrech, ymddygiad ac agwedd disgyblion at y Gymraeg bob dydd.

Mae trefniadau diogelu'r ysgol yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy'n datblygu dealltwriaeth disgyblion o sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel rhag niwed, yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn addysgu plant am ddiogelwch ar y rhyngrwyd ac yn datblygu eu dealltwriaeth o berthnasoedd priodol ac amhriodol. Maent yn gweithio'n effeithiol gydag elusennau a'r heddlu i gyflwyno'r negeseuon hyn mewn modd difyr, ac yn teilwra'r cymorth ar gyfer anghenion unigol fel y bo'n briodol, er enghraifft trwy drefnu sesiynau ychwanegol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli yn darparu arweinyddiaeth effeithiol sydd yn ei dro yn galluogi disgyblion a staff i ddatblygu mewn amgylchedd cefnogol a gofalgar. Mae arweinwyr wedi ymrwymo i ddatblygu disgyblion sydd 'yn barod, yn gyfrifol ac yn barchus'. Maent yn creu ac yn cynnal moeseg tîm gref, lle caiff barn pawb ei

gwerthfawrogi. Mae arweinwyr yn hwyluso gwaith y pwyllgor lles staff sy'n trefnu gweithgareddau sy'n cefnogi iechyd meddwl ac iechyd corfforol staff.

Caiff uwch reolwyr eu cynorthwyo'n fedrus gan gorff llywodraethol ymroddgar sydd â dealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Maent yn gwneud eu gwaith yn ddiwyd fel corff llywodraethol llawn ac fel aelodau o is-bwyllgorau. Er enghraifft, ar ôl cael cyflwyniad gan ddisgyblion am fuddion llwybr seiclo o gwmpas tir yr ysgol, cymeradwywyd cynlluniau gan lywodraethwyr a sicrhau bod beiciau ar gael i ddisgyblion nad ydynt efallai'n berchen ar feic eu hunain. Gyda chymorth Rheolwr Busnes a Chyllid y clwstwr, mae arweinwyr yn rheoli adnoddau'n effeithiol. Gwnânt benderfyniadau priodol am wariant, gan flaenoriaethu'n briodol. Er enghraifft, ar ôl nodi'r angen i ddatblygu medrau digidol disgyblion, fe wnaethant fuddsoddi'n sylweddol mewn offer TGCh yn ddiweddar.

Ar y cyfan, mae arweinwyr yn nodi meysydd sydd angen eu datblygu yn gywir. Maent yn defnyddio ystod o weithgareddau hunanwerthuso wedi'u hymgorffori'n dda sy'n canolbwyntio ar dystiolaeth uniongyrchol, fel craffu ar lyfrau a theithiau dysgu, yn ogystal â gofyn i staff a disgyblion am adborth. Fodd bynnag, nid yw cynllunio strategol bob amser yn blaenoriaethu'r meysydd hyn i'w datblygu yn ddigon amlwg, nac yn gosod camau gweithredu na mesurau atebolrwydd digon clir i sicrhau gwelliant cyflym a chyson.

Mae arweinwyr yn ystyried blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn briodol wrth gynllunio'n strategol. Er enghraifft, maent yn gweithio ochr yn ochr ag ysgolion eraill i baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, ac yn blaenoriaethu ffyrdd i gadw disgyblion yn ddiogel, fel cyflwyno rhaglen wrthfwlio. Mae arweinwyr yn darparu digonedd o gyfleoedd ar gyfer dysgu proffesiynol staff, gan drefnu sesiynau hyfforddi yn aml fel rhan o grŵp o ysgolion Cymuned Ddysgu'r Rhyl. Mae'r Gymuned Ddysgu yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid eraill hefyd, fel prifysgol leol, er enghraifft i werthuso effaith gwahanol ymyriadau ar ddeilliannau disgyblion. Hefyd, mae arweinwyr yn hwyluso cydweithio rheolaidd ymhlith staff yn yr ysgol. O ganlyniad, caiff athrawon drafodaethau proffesiynol gwerthfawr rheolaidd sy'n helpu cyfoethogi'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion, er enghraifft pan fyddant yn cyfrannu syniadau ar gyfer testunau ei gilydd.

Maent yn rhoi pwyslais clir ar annog disgyblion i ddatblygu eu medrau Cymraeg, er enghraifft trwy sicrhau eu bod yn blaenoriaethu medrau gwrando a siarad Cymraeg mewn gwersi, cyflwyno tocynnau gwobr i ddisgyblion am wneud ymdrech dda i siarad Cymraeg, a defnyddio ymadroddion Cymraeg yn ystod gwasanaethau ysgol. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, er enghraifft trwy alluogi disgyblion i archebu prydau ysgol o blith amrywiaeth o ddewisiadau poeth ac oer bob bore.

Mae arweinwyr yn cyfathrebu'n effeithiol â rhieni, er enghraifft trwy ddefnyddio ap dynodedig a rhannu cylchlythyrau, ac yn gwneud addasiadau priodol i gefnogi anghenion unigol rhieni. Maent yn cael adborth gan rieni o sesiynau achlysurol y fforwm rhieni ac yn gwneud newidiadau i'r ddarpariaeth, fel y bo'n briodol. Er enghraifft, yn ystod pandemig COVID-19, adolygon nhw argaeledd llyfrau darllen yn dilyn ceisiadau gan rieni. Hefyd, mae arweinwyr yn rhoi cyngor gwerthfawr i rieni ynglŷn â sut gallant gynorthwyo eu plant, er enghraifft trwy arddangos sut y gellir defnyddio pecynnau addysgu manwl gywir i gynorthwyo plant i ddatblygu medrau

llythrennedd gartref. Hefyd, maent yn cyfeirio rhieni at wasanaethau allanol defnyddiol yn rheolaidd ac yn gweithio'n agos gyda'r gwasanaeth Cysylltiadau Teuluol ar safle'r ysgol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/08/2022